

Julie James AC/AM
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-JJ0147--18

John Griffiths AC
Cadeirydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

22 Chwefror 2018

Annwyl

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 11 Ionawr, yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf ar y camau a gymerwyd i weithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a minnau wedi darparu ymatebion sylweddol i'ch cwestiynau yn nogfen 1.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Julie', written in a cursive style.

Julie James AC/AM
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Rhoi'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) ar waith

Mae llawer wedi cael ei gyflawni ers i'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) ('y Ddeddf') ddod i rym yn 2015, yn cynnwys:

- **Mehafin 2015 – Lansio peilot “Gofyn a Gweithredu” mewn dau safle sydd wedi mabwysiadu'r cynllun yn gynnar:** Proses ymholi wedi'i dargedu yw “Gofyn a Gweithredu”, proses i'w defnyddio ym mhob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd y peilot yn rhoi model clir o'r broses “Gofyn a Gweithredu” a fydd yn cael ei chyflwyno mewn rhagor o ardaloedd yn 2017 i'w threialu ymhellach.
- **Medi 2015 - Lansio E-ddysgu ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol:** Mae'r e-ddysgu'n cynnig hyfforddiant sylfaenol, am ddim ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac mae ar gael i bawb ledled Cymru.
- **Medi 2015 – Prosiect Cyfranogiad Ieuenctid:** Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid i BAWSO ac NSPCC Cymru i gydweithio ar brosiect cyfranogiad ieuenctid arloesol, gan fynd i'r afael â phynciau hawliau merched ac arferion niweidiol, yn enwedig anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM).
- **Hydref 2015 – Cyhoeddi Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan o Ymdrin â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru:** Mae'r canllaw hwn yn cydnabod pwysigrwydd lleoliadau addysg fel amgylcheddau lle gellir meithrin agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb rhywiol a pherthnasoedd iach, llawn parch, drwy ddull sy'n seiliedig ar hawliau.
- **Mawrth 2016 – Cyhoeddi canllawiau statudol ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol**
Ers cyhoeddi'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol mae Llywodraeth Cymru wedi:
 - Ariannu hyfforddiant wedi'i dargedu ar gyfer gweithwyr cam-drin domestig ar hyd a lled y wlad, gan ehangu'n sylweddol nifer y gweithwyr proffesiynol cymwysedig ac arbenigol sydd gennym ni yng Nghymru.
 - Cynnig bwrsariaeth i fynd i'r afael â bwlch cyllido ar gyfer Cynghorwyr Annibynnol arbenigol ar Drais Rhywiol.
 - Darparu'r cwrs hyfforddiant cyfrwng Cymraeg cyntaf ar gyfer rheolwyr gwasanaethau arbenigol.
 - Creu cyrsiau hyfforddiant newydd ar gyfer gweithwyr argyfwng a chwmselwyr trais rhywiol.
 - Creu maes llafur pwnc arbenigol o unedau achrededig Agored Cymru er mwyn helpu i gysoni hyfforddiant trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled Cymru.
 - Creu cyfres o ffilmiau ar gyfer arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r ffilmiau wedi cael eu gwyllo mwy na 6,500 o weithiau.
- **Mawrth 2016 – Cyhoeddi canllaw i lywodraethwyr ysgol ar godi ymwybyddiaeth:** Mae'r canllaw'n cynnwys nifer o gamau y gall llywodraethwyr eu cymryd i wneud eu hysgol yn fwy diogel.

- **Mehefin 2016 – Cyhoeddi Adolygiad Estyn ar Berthnasoedd Iach ac Ymateb Llywodraeth Cymru.**
- **Ionawr 2018 – Rydym bellach wedi cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol hyd at fis Mawrth 2017 a bydd yr adroddiad ar 2017-18 yn cael ei gyhoeddi yn yr haf.**

Roeddwn i'n falch dros ben o gyhoeddi ym mis Ionawr fod dau Gynghorydd Cenedlaethol wedi'u penodi, sef Yasmin Khan a Nazir Afzal, ar drefniant rhannu swydd. Dechreuodd y Cynghorwyr Cenedlaethol ar eu gwaith ar 15 Ionawr ac maent yn cyfarfod â rhanddeiliaid ledled Cymru. Byddant yn gwneud cyfraniad pwysig wrth fy nghynghori i a Gweinidogion eraill, gweithio gyda swyddogion a helpu i lywio ein blaenoriaethau at y dyfodol mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Sylwadau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Strategaeth Genedlaethol

Cyhoeddwyd y Strategaeth Genedlaethol ar 4 Tachwedd 2016 fel dogfen strategol, lefel uchel yn hytrach na chynllun gweithredu manwl. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd wrthym y byddai cynllun cyflawni mwy manwl yn cael ei gyhoeddi fel ffordd o oresgyn yr her gyfreithiol o beidio â chyflawni'r strategaeth ar yr adeg briodol.

Mynegwyd pryderon gennym na ellid gorfodi'r cynllun cyflawni yn gyfreithiol o dan y Ddeddf, yn wahanol i'r strategaeth genedlaethol. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'r statws cyfreithiol a'r amserlen ar gyfer y cynllun cyflawni yn cael eu pennu gan grŵp Gorchwyl a Gorffen.

- **Pryd fydd y cynllun cyflawni yn cael ei gyhoeddi?**
- **Beth fydd statws cyfreithiol y cynllun (er enghraifft, a gaiff ei gyhoeddi fel canllaw statudol) a phryd fydd hyn yn cael ei benderfynu? A ellir ei orfodi yn gyfreithiol?**
- **Sut fydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar y cynllun?**

Ymateb - Mae swyddogion wedi drafftio Fframwaith Cyflawni Llywodraeth Cymru ac maent yn manteisio ar arbenigedd y Cynghorwyr Cenedlaethol newydd cyn cyhoeddi'r fframwaith yn ystod yr haf. Nid yw'r Fframwaith Cyflawni yn ddogfen statudol ond bydd yn darparu allbynnau, canlyniadau ac amserlenni y gellir eu defnyddio i ddal Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i gyfrif. Mae'n nodi sut bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r camau gweithredu yn y Strategaeth Genedlaethol, pa sefydliadau byddwn ni'n gweithio gyda nhw a'n disgwyliadau o Awdurdodau Perthnasol wrth gyfrannu at gyflawni ein nodau.

Bydd y Fframwaith Cyflawni'n ategu'r Strategaeth Genedlaethol, a ffrwyth gwaith trawslywodraethol ac ymgysylltu helaeth â sefydliadau partner allanol ydyw. Mae fy swyddogion wedi ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol gydol y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith ac mae rhanddeiliaid wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o'i gyd-gynhyrchu. Mae'n anochel felly bod hyn wedi arwain at ymestyn yr amserlenni.

Sylwadau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Strategaethau Lleol

Ym mis Hydref 2016, clywsom fod strategaethau lleol yn dechrau cael eu datblygu yn absenoldeb y cynllun cyflawni neu ganllawiau comisiynu, a allai arwain at anghysonderau o ran dulliau gweithredu ar draws Cymru.

Dyweddodd ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad y "caiff canllawiau eu cyhoeddi mewn perthynas â strategaethau lleol ym mis Gorffennaf 2017". Ymddengys nad yw'r rhain wedi'u cyhoeddi.

Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru Ganfyddiadau'r Alwad am Dystiolaeth ynghylch Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ym mis Awst, a ganfu bod "strategaethau lleol yn datblygu ond mae angen eu hintegreiddio â deddfwriaeth ddiweddar er mwyn iddynt fod yn gwbl effeithiol".

- A gafodd y canllawiau ar strategaethau lleol eu cyflwyno i awdurdodau lleol a byrddau iechyd?

- A yw pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd yn debygol o fod wedi datblygu eu strategaethau lleol erbyn y dyddiad targed sef mis Mai 2018?

- Heb Gyngorydd Cenedlaethol ar waith ar hyn o bryd, pa gymorth sydd ar gael i awdurdodau lleol a byrddau lleol o ran llunio strategaethau lleol?

- Faint o strategaethau lleol yr ymgynghorwyd arnynt hyd yn hyn?

- Sut y caiff cynnwys ac amcanion pob strategaeth lleol eu gwerthuso ledled Cymru gyfan?

Ymateb – Mae'r canllawiau ar gyfer strategaethau lleol wedi'u drafftio ac maent yn cael eu cyfieithu ar hyn o bryd cyn eu cyhoeddi. Mae data y gallai awdurdodau lleol a byrddau iechyd ei ddefnyddio wedi bod ar gael gan amrywiaeth eang o ffynonellau, yn cynnwys asesiadau cymunedol sy'n bodoli'n barod, fel yr Aseidiadau Llesiant Lleol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac asesiadau sy'n llywio'r Cynllun Heddlu a Throsedd.

Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran cyflawni'r rhwymedigaeth yn y Ddeddf i baratoi Strategaethau Lleol erbyn mis Mai 2018 ac mae rhai awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol wedi cyhoeddi strategaethau'n barod. Rwy'n rhagweld y bydd y gweddi wedi cyflawni'r gwaith erbyn Mai 2018.

Mae Yasmin Khan a Nazir Afzal wrthi'n pennu eu blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Gallai hyn gynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i adolygu eu strategaethau i sicrhau cynllunio strategol o ansawdd, a gwella cydlyniant a chysondeb.

Blaenoriaeth ar gyfer y Cynghorwyr Cenedlaethol fydd cwblhau gwaith ar Ddangosyddion Cenedlaethol, a ddechreuwyd gan eu rhagflaenydd, Rhian Bowen-Davies. Bydd y Dangosyddion Cenedlaethol yn cael eu defnyddio i fesur effeithiolrwydd y strategaethau yn ogystal â chynnydd ehangach o dan y Ddeddf.

Sylwadau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Addysg
Maes allweddol inni ganolbwyntio arno yn ystod ein gwaith craffu oedd rôl addysg. Gwnaethom nifer o argymhellion, gan gynnwys galw am ymrwymiad y dylid cynnwys perthnasoedd iach yn y cwricwlwm newydd.

Felly, roeddem yn falch bod y grŵp arbenigol ar berthnasoedd iach ym mis Mawrth wedi argymhell, ym mis Rhagfyr 2017, y dylai Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (SRE) fod yn rhan statudol o'r cwricwlwm newydd i bob ysgol (3-16 oed).

- (I Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg) Beth yw'r camau nesaf o ran datblygu argymhellion y grŵp arbenigol ar addysg perthnasoedd iach?
- (I Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg) Pam y penderfynwyd peidio â chyflwyno rheoliadau o dan adran 9?

Addysg uwch

- (I Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg) Pryd fydd canllawiau'n cael eu cyflwyno i sefydliadau addysg uwch o dan adran 10?

Ymateb - Mae swyddogion Addysg a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod polisi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol y llywodraeth yn llywio ac yn cysylltu â pholisi a gwaith cyflawni ym maes addysg a meysydd eraill. Penderfynwyd peidio â bwrw rhagddi â rheoliadau oherwydd y gwaith sy'n mynd rhagddo ar ddatblygu'r cwrwclwm newydd.

Sefydlais y Panel Arbenigol ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ym mis Mawrth 2017 i edrych ar sut gallwn ni wella darpariaeth addysg rhyw a pherthnasoedd mewn ysgolion, yn awr ac yn y dyfodol.

Cyhoeddodd y panel arbenigol ei adroddiad ym mis Rhagfyr. Ynndo, maent yn amlinellu eu gweledigaeth ar gyfer addysg rhyw a pherthnasoedd o ansawdd, gan bwysleisio pwysigrwydd cefnogi'r proffesiwn i ddatblygu ei wybodaeth a'i hyder yn y maes hwn.

Bydd galluogi ein hymarferwyr i addysgu addysg rhyw a pherthnasoedd yn hyderus yn gwella'u gallu i gyflwyno dysgu am faterion pwysig; fel cam-drin domestig a'i atal.

Mae argymhellion y Panel yn rhoi cyfle i ystyried sut mae modd i ysgolion roi sylw'n fwy effeithiol i faterion yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; fel cydraddoldeb rhwng y rhywiau a pherthnasoedd iach. Bydd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ddechrau'r gwanwyn.

Byddwn yn adolygu ein canllawiau statudol – *Cadw dysgwyr yn ddiogel* eleni i sicrhau bod ymarferwyr addysg yn parhau i gael eu cynorthwyo i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu yn effeithiol er mwyn amddiffyn pobl ifanc. Bydd datblygiadau yng nghyfraith Cymru, yn cynnwys Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru (Cymru) yn dod i rym, yn cael sylw yn yr adolygiad o'r canllawiau hyn.

Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael i gynorthwyo ymarferwyr i roi gwybod am faterion diogelu a amheuir. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfres o fodiwlau diogelu e-ddysgu ar Hwb i annog ysgolion i reoli materion diogelu.

Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu Prosiect Sbectrwm Hafan Cymru i weithredu dull ataliol sydd wedi'i lunio ar gyfer plant, pobl ifanc, staff a llywodraethwyr ysgol. Mae'r prosiect yn gweithio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru i addysgu plant a phobl ifanc am bwysigrwydd perthnasoedd iach, i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a ble i gael cymorth.

Cyfrifoldeb CCAUC yw canllawiau a gyhoeddir i sefydliadau addysg uwch o dan adran 10. Byddwn yn gweithio gyda CCAUC i lywio canllawiau hyn, gan dynnu ar brosiectau sydd eisoes ar waith o fewn & uwch addysg bellach.

Sylwadau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Dangosyddion Cenedlaethol

Dywedodd ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad na fyddai'r dangosyddion cenedlaethol yn cael eu cyhoeddi cyn mis Hydref 2017.

- Pryd yr ymgynghorir ar y dangosyddion cenedlaethol a phryd y cânt eu cyhoeddi?

Ymateb – Bu Rhian Bowen-Davies, y Cynghorydd Cenedlaethol cyntaf ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn arwain y gwaith o ddatblygu'r Dangosyddion Cenedlaethol. Gan iddi adael y swydd, bu oedi yn y gwaith felly bydd hyn yn flaenoriaeth i'r Cynghorwyr Cenedlaethol newydd. Rydw i'n disgwyl y bydd ymgynghoriad arnynt yn cael ei gynnal yn ddiweddarach eleni, a'r Dangosyddion Cenedlaethol yn cael eu cyflwyno gerbron y Cynulliad ar ôl ymgynghoriad llawn.

Bydd y Dangosyddion Cenedlaethol yn cyd-fynd â dangosyddion cenedlaethol a nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi saith nod llesiant sy'n berthnasol i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a chefnogi goroeswyr, yn cynnwys Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru iachach, a Chymru o gymunedau cydlynus, y mae'n rhaid i gyrrff y sector cyhoeddus fynd ati i'w cyflawni.

Sylwadau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Canllawiau Statudol

Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym yn 2016 yr ymgynghorir ar y canllawiau comisiynu statudol erbyn mis Gorffennaf 2017. Ni ymgynghorwyd ar y rhain eto ac ni chawsant eu cyhoeddi.

Daeth ymgynghoriad ar y cynllun Gofyn a Gweithredu i ben ym mis Ionawr 2016. Mae prosiectau peilot ar y gweill ar hyn o bryd yn ardal bwrdd iechyd Abertawe Bro Morgannwg ac yng Ngwent. Dywedodd llythyr diweddar atom gan Lywodraeth Cymru fod Gofyn a Gweithredu'n cael ei gyflwyno'n raddol, yn hytrach na'i gyflwyno'n llawn yn genedlaethol.

Ymgynghorwyd ar ganllawiau cydweithio amlasiantaethol yn 2015. Dywedodd ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad "y caiff y canllawiau amlasiantaethol eu hystyried yng ngoleuni'r Papur Gwyn ar lywodraeth leol". Ni chawsant eu cyhoeddi eto.

Yn ôl y dystiolaeth ysgrifenedig a gawsom i'n hymchwiliad, ymgynghorwyd â'r Bwrdd Cyngori ar y canllawiau ar gyfer gweithio gyda chyflawnwyr yn 2015, ond ni chawsant eu cyhoeddi.

- Pryd fydd y canllawiau comisiynu statudol yn cael eu cyhoeddi?
- Beth yw statws presennol proses cyflwyno Gofyn a Gweithredu, a beth yw'r amserlen gyflwyno ar gyfer y dyfodol? Pryd fydd y broses gyflwyno wedi'i chwblhau?
- Pryd fydd y canllawiau cydweithio amlasiantaethol yn cael eu cyhoeddi?
- Pryd fydd y canllawiau ar gyfer gweithio gyda chyflawnwyr yn cael eu cyhoeddi?

Ymateb - Canllawiau comisiynu fu prif ffocws y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyllid Cynaliadwy, sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o'r sector. Mae rhanddeiliaid wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o lunio'r canllawiau ac mae drafftiau wedi'u rhannu er mwyn cael sylwadau arnynt a'u diwygio. Bydd canllawiau drafft ar gael erbyn diwedd mis Mawrth i ranbarthau eu defnyddio, gweithredu a threialu. Blwyddyn bontio fydd hon i dreialu'r canllawiau a sicrhau eu bod yn addas i'r diben. Bydd y canllawiau'n destun ymgynghoriad yn y gwanwyn a'r haf, a byddant yn cael eu cyflwyno gerbron y Cynulliad, yn dilyn ymgynghoriad statudol yn 2018.

Mae canllawiau statudol ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar waith. Fe'u cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio'n galed i roi'r Fframwaith ar waith ledled Cymru, ac mae gwaith hyd yma wedi cynnwys:

- Ariannu hyfforddiant wedi'i dargedu ar gyfer gweithwyr cam-drin domestig ar hyd a lled y wlad, gan ehangu'n sylweddol nifer y gweithwyr proffesiynol cymwysedig ac arbenigol sydd gennym yng Nghymru.

- Darparu'r cwrs hyfforddiant cyfrwng Cymraeg cyntaf ar gyfer rheolwyr gwasanaethau arbenigol.

- Creu maes llafur pwnc arbenigol o unedau achrededig Agored Cymru er mwyn helpu i gysoni hyfforddiant trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau hyfforddi newydd ar gyfer gweithwyr argyfwng a chwyselwyr trais rhywiol.

- Creu cyfres o ffilmiau ar gyfer arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r ffilmiau wedi cael eu gwyllo mwy na 6,500 o weithiau.

- lansio rhaglen e-ddysgu i roi hyfforddiant sylfaenol, am ddim ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, sydd ar gael i bawb ledled Cymru. Mae'r rhaglen e-ddysgu hon wedi cael ei mabwysiadu gan y rhan fwyaf o'r awdurdodau perthnasol erbyn hyn.

Cafodd o leiaf 70,000 o bobl eu hyfforddi yng ngrŵp 1 erbyn diwedd 2017. Bydd data newydd ar gael ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac rydym ar ddeall bod pob awdurdod perthnasol yn gweithio'n galed i ehangu cyrhaeddiad yr hyfforddiant hwn. Mae gwerthusiad cychwynnol o'r rhaglen e-ddysgu yn gadarnhaol dros ben. Mae 97% o'r rhai sy'n cwblhau'r hyfforddiant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod ganddynt yr hyder i gyfeirio cydweithwyr a chyfeillion at wasanaethau arbenigol, mae 93% yn hyderus y gallant adnabod arwyddion o gam-drin ac mae 97% yn fwy gwybodus am beth yw trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Gofyn a Gweithredu

Mae'r gwaith o gyflwyno Gofyn a Gweithredu yn mynd rhagddo'n dda. Mae pum safle'n cymryd rhan yn y rhaglen eisoes a bydd tri arall yn ymuno â'r rhaglen ym mlwyddyn ariannol 2018-2019. Bydd hyn yn gadael un rhanbarth yng Nghymru yn weddill i ymuno â'r rhaglen yn 2019-2020. Er ein bod yn rhagweld y bydd rhywfaint o waith tacluso i'w wneud, ar hyn o bryd byddwn yn cwrdd â'r targed o gyflwyno "Gofyn a Gweithredu" yn genedlaethol erbyn 2020. Mae 1000 o ymarferwyr wedi cael hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" yn barod. Mae disgwyl y bydd y ffigur hwn wedi tyfu'n sylweddol pan fyddwn yn casglu data eto ddiwedd mis Mawrth 2018.

Cyhoeddwyd cyfres o ddogfennau canllaw ar y rhaglen "Gofyn a Gweithredu" ym mis Tachwedd 2017. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys canllawiau strategol cynhwysfawr ar gyfer arweinwyr a chanllawiau ymarferol ar gyfer gweithwyr rheng flaen sy'n defnyddio "Gofyn a Gweithredu" gyda chleientiaid.

Yn dilyn ymgynghoriad agos â bwrdd gweithredu "Gofyn a Gweithredu", cytunwyd yn unfrydol i gyhoeddi'r canllawiau hyn ar ffurf drafft. Diben hyn oedd sicrhau bod yr awdurdodau perthnasol yn cael amser i roi "Gofyn a Gweithredu" ar waith a rhoi cyfle i'r rhaglen ennill ei phlwyf cyn inni ganolbwyntio ar gydymffurfiaeth. Mae ein rhanddeiliaid wedi croesawu'r dull hwn ac rwy'n hynod falch o'r model partneriaeth o weithredu sydd gennym ar hyn o bryd. Mae'r awdurdodau perthnasol yn frwdfrydig ynghylch "Gofyn a Gweithredu" ac maent eisiau darparu gwasanaeth heb ei ail. Mae'r dull hwn yn eu cynorthwyo i wneud hynny.

Canllawiau cydweithio amlasiantaethol

Mae'r canllawiau comisiynu statudol yn rhoi sylw i'r angen am gydweithio amlasiantaethol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau, felly nid oes angen canllawiau ar wahân ar hyn.

Canllawiau ar weithio gyda chyflawnwyr

Mae Dr Cerys Miles, Seicolegydd Fforensig gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, wedi cael secondiad i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu dulliau o weithio gyda chyflawnwyr. Mae'n gwneud gwaith gyda Phrifysgol Caerdydd ar yr hyn sy'n gweithio gyda chyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i lywio'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau effeithiol a chynaliadwy ar gyfer cyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys datblygu dulliau atal ac ymyrryd yn gynnar, a'i nod yw gwella cysylltiadau rhwng gwasanaethau, cyfathrebu ac ymarfer effeithiol a datblygu gweithlu medrus a gwydn. Bydd y fframwaith a'r ffrwd waith yn cael eu lansio ym mis Mawrth.

Rydym ni hefyd yn datblygu safonau Llywodraeth Cymru i bennu'r gofynion sylfaenol ar gyfer pob rhaglen i gyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd y safonau hyn yn cael eu llunio drwy broses o gydweithio, gan ddefnyddio arbenigedd gwasanaethau ar gyfer cyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o'r sectorau statudol ac anstatudol.

Byddwn yn cynnal gweithdy ym mis Ebrill i lunio'r fersiwn derfynol o'r safonau ar sail cyfraniadau ac adborth.

Sylwadau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Datblygiadau Eraill

Mewn dogfen ymgynghori ynghylch cyllid ar gyfer tai â chymorth a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017, cynigiodd Llywodraeth y DU ddileu llochesau a mathau eraill o dai â chymorth tymor byr o'r system les. Mae hyn yn golygu na fydd pobl yn gallu talu am dai â chymorth gyda'u budd-dal tai. Yn lle hynny, mae'n cynnig bod awdurdodau lleol Lloegr a gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban yn cael grant wedi'i neilltuo ar gyfer tai â chymorth tymor byr.

- Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y cynigion i ddileu llochesau o'r system les?

- Sut fydd cyllid yn cael ei ddyrannu i lochesau yn y dyfodol yng Nghymru?

Ymateb – Cafwyd ymgynghori a gohebiaeth helaeth rhwng swyddogion a Gweinidogion Cymru a'u cydweithwyr yn y DU ynghylch yr Adolygiad o Lety â Chymorth dros gyfnod. Er nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn am ddileu llety â chymorth tymor byr o'r system budd-daliadau tai, roeddem yn croesawu cyhoeddiad mis Hydref a oedd yn egluro dyfodol y cyllid hwn ar gyfer llety â chymorth ac yn gohirio'r dyddiad gweithredu i fis Ebrill 2020. Disgwylir y trosglwyddiad i Gymru i Floc Cymru ar yr un lefel â'r gwariant ar y Budd-dal Tai. Mae hyn yn golygu y bydd Cymru'n rheoli'r holl gyllid cyhoeddus sy'n cael ei wario ar lochesau a darpariaeth tymor byr arall.

Mae'r trosglwyddiad yn golygu bod rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu polisi a fframwaith cyllido manwl ar gyfer y 'Gronfa Llety â Chymorth' i fynd i'r afael â'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n deillio o'r newidiadau hyn. Yng ngoleuni pwysigrwydd y ddarpariaeth i'n hagenda, rydym ni wedi dewis mynd ati drwy gydweithio'n helaeth gyda rhanddeiliaid. Mae rhanddeiliaid wedi croesawu'r dull cydweithredol hwn. Hyd yn hyn, rydym ni wedi cyflwyno ein hachos o blaid newid a dealltwriaeth fanwl o'r risgiau, problemau a mesur llwyddiant ar gyfer y drefn newydd. Bydd ymgynghoriad anffurfiol ar yr opsiynau'n dechrau'n fuan a bydd ymgynghoriad ffurfiol ar opsiwn a ffefrir yn dechrau yn yr hydref. Bydd y trosglwyddo cyllid arfaethedig yn rhoi mwy o reolaeth i Lywodraeth Cymru dros opsiynau i ariannu'r gwasanaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Sylwadau'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau:

Dywedodd ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad yn 2016 fod "datblygu model cyllido cynaliadwy yn flaenoriaeth er mwyn cyflawni'r Strategaeth Genedlaethol. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys adolygu cyllid presennol Llywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael [...] Bydd [Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd] yn cael adroddiad ar y cynnydd yn y Grŵp Cynghori ym mis Gorffennaf 2017". Nid oes unrhyw gyhoeddiad wedi bod am hyn eto.

- Pryd fydd yr adolygiad o gyllid ar gyfer gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi'i gwblhau a'i gyhoeddi?

Ymateb – Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen o randdeiliaid allweddol i ddatblygu model cyllido cynaliadwy. Mae gwaith y grŵp hwn wedi canolbwyntio ar ddatblygu canllawiau cydgomisiynu, mabwysiadu dull amlasiantaethol sy'n seiliedig ar anghenion a chefnogi'r broses o symud gwaith cynllunio a chomisiynu i lefel ranbarthol. Dylai hyn hwyluso cydgyngllunio, cyfuno adnoddau a chyflwyno gwasanaethau'n fwy effeithiol. Mae symud at ddull rhanbarthol yn cwmpasu'r cyllid

ar gyfer awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector. Bydd y gweithredu ar lefel ranbarthol yn dechrau o fis Ebrill 2018 a bydd cyllidebau awdurdodau lleol yn cael eu dyrannu i ranbarthau o'r dyddiad hwnnw. Bydd 2018-19 yn flwyddyn bontio, a bydd swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Cynghorwyr Cenedlaethol yn gweithio gyda rhanbarthau i ymateb yn effeithiol. Bydd sefydliadau'r trydydd sector yn parhau i gael eu hariannu'n uniongyrchol drwy grant trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol Llywodraeth Cymru yn 2018-19 i sicrhau parhad. Bydd swyddogion yn cynorthwyo sefydliadau'r trydydd sector drwy gydol y flwyddyn bontio i sicrhau eu bod yn barod yn weithredol ar gyfer cyflwyno'r dull comisiynu rhanbarthol yn llawn o 2019-20.

Yn fwyaf diweddar, ar 29 Ionawr, lansiais yr ymgyrch Dyma Fi. Mae'r ymgyrch yn herio'r stereoteipiau ar sail rhywedd sy'n cyfrannu at anghydraddoldeb rhywiol; un o achosion a chanlyniadau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Datblygwyd yr ymgyrch gyda goroeswyr camdriniaeth ac arbenigwyr yn y maes. Mae wedi cael croeso cynnes gan ein rhanddeiliaid ac mae'n nodi dull newydd o ddatblygu ymgyrchoedd yn y maes hwn. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu mai dyma'r ymgyrch mwyaf llwyddiannus yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ddiweddar o ran cyrraedd cynulleidfa newydd.

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at lansio ein hymgyrch nesaf yn ddiweddarach yn y gwanwyn. Bydd yr ymgyrch yn rhannu hanesion uniongyrchol pobl sydd wedi dioddef camdriniaeth ac yn datgan yn glir nad yw Cymru'n mynd i oddef unrhyw fath o gamdriniaeth. Mae fy swyddogion yn trafod gyda goroeswyr ar hyn o bryd hefyd am ymgyrchoedd y dyfodol a byddaf yn cyhoeddi cynlluniau fel sy'n briodol.

Wrth edrych at y dyfodol, rwyf am i leisiau a phrofiadau goroeswyr gael lle canolog wrth lywio'r gwaith parhaus o ddatblygu a chyflwyno deddfwriaeth, polisiau a strategaethau sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Er mwyn sicrhau mai dyna'r achos, byddaf yn lansio ymarfer ymgynghori anffurfiol yn ddiweddarach yn y gwanwyn ar gynlluniau i greu fframwaith ffurfiol, cenedlaethol, cynaliadwy ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr a fydd yn sicrhau bod goroeswyr, tystion ac eraill sydd wedi cael eu heffeithio yn llywio ac yn dylanwadu ar waith y Llywodraeth yn y maes polisi hwn yng Nghymru. Unwaith eto, mae'r cynlluniau hyn wedi'u datblygu gyda goroeswyr a rhanddeiliaid ac maent yn seiliedig ar dystiolaeth ac arferion da. Yn dilyn yr ymgynghoriad, byddaf yn lansio gweithgarwch i sicrhau ymgysylltiad â goroeswyr ar lefel genedlaethol yn 2018-2019.